Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# GŴYS A RHAGLEN

ar gyfer

**CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN**

a gynhelir yn

**CYFARFOD RHITHIOL O GYNGOR SIR YNYS MÔN**

**DYDD MAWRTH, 8 MEDI 2020**

**am 2.00 o'r gloch**

# SUMMONS AND AGENDA

for a

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

to be held at the

**VIRTUAL MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

**TUESDAY, 8 SEPTEMBER, 2020**

**at 2.00 p.m.**

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu recordio a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1. CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3. CYHOEDDIADAU**

**4. RHAGLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR SIR AR GYFER 2020/21**

Cymeradwyo'r rhaglen isod o gyfarfodydd y Cyngor Sir ar gyfer y flwyddyn i ddod :-

- 29 Hydref, 2020 (Arbennig) - 10.30 o'r gloch yb
- 8 Rhagfyr, 2020 - 2.00 o'r gloch yp
- 23 Chwefror, 2021 - 2.00 o'r gloch yp
- Mai (Cyfarfod Blynyddol) - dyddiad i'w gadarnhau

**5. DIRPRWYAETH GAN YR ARWEINYDD/AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH**

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2 y Cyfansoddiad, yr Arweinydd i roi gwybod enwau'r Cynghorwyr a ddewiswyd i fod yn Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, gan gynnwys eu Portffolio.

**6. PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL RHWNG MIS MAI2019 A GORFFENNAF 2020**

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**7. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AM 2020/21**

Ethol Cadeirydd yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 y Cyfansoddiad.

**8. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO**

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau'r rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai mater i'r Cyngor ydyw i'w chytuno (fel y nodir ym Mharagraff 3.2 o'r Cyfansoddiad).

**9. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

## 10. CYRFF ALLANOL

Cyflwyno addroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

## 11. CADARNHAU PWYLLGORAU

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau canlynol fel y cyfeirir ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol:-

- Panel Tâl a Graddfeydd (Is-Bwyllgor o'r Cyngor)
- Panel Penodi i’r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)
- Is-Bwyllgor Indemniadau

This page is intentionally left blank

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 8 Medi 2020 |
| **TITLE:** | Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor |
| **ADRODDIAD GAN:** | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (est 2568) lbxcs@ynysmon.gov.uk |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I adrodd ar y drefn ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer 2020/2021. |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (est 2568) lbxcs@ynysmon.gov.uk |

## 1. Cefndir

1.1 Mae ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn ofyniad statudol yn unol ag adrannau 22, 23 a 24 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

1.2 O ganlyniad i'r Ddeddf Coronafeirws 2020 a'r pandemig presennol, mae Llywodraeth Cymru wedi pasio'r Rheoliadau Awdurdod Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 (fel y'i diwygiwyd).

1.3 Mae Rheoliad 11 of Reoliadau Awdurdod Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn delio ag "Ethol cadeiryddion ac is-gadeiryddion prif gynghorau a chynghorau cymuned yn y cyfarfodydd blynyddol". Mae'r Rheoliad hwn yn diwygio darpariaeth Deddf Llywodraeth leol 1972 o ran ei fod yn darllen fel â ganlyn:

**22 Cadeirydd *(rhan berthnasol yn unig).***

(1) Bydd Cadeirydd prif gyngor yn cael ei ethol yn flynyddol gan y cyngor o blith y cynghorwyr "*but if there is no election of a chair at the annual meeting of the council in 2020, the person holding office as chair immediately before the annual meeting of the council in 2020 may continue to hold office.*"

**23 Ethol Cadeirydd (*rhan berthnasol yn unig*)**

(1)Ethol Cadeirydd fydd yr eitem gyntaf o fusnes a drafodir yng nghyfarfod blynyddol prif gyngor "*unless, in relation to the annual meeting held in 2020, the council decides not to hold an election of a chair at that meeting.*"

022618/580799

*“(1A) A principal council that did not elect a chair at its annual meeting held in 2020 may hold an election of a chair at any time before the annual meeting held in 2021 (but not after 30 April 2021)”*

## 2. Cynnig

2.1 O ganlyniad i’r ddarpariaeth yn y Rheoliadau, does dim gofyniad i ethol Cadeirydd / Is-gadeirydd newydd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor yn 2020.

2.2 Mae angen penderfyniad gan y Cyngor, yn y Cyfarfod Blynyddol, er mwyn cadarnhau na ddylid cynnal etholiad yn 2020.

2.3 Lle na gynhelir etholiad, bydd y Cadeirydd presennol yn parhau i ddal y swydd tan y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir yn 2021 (oni bai y cynhelir etholiad cyn hynny).

2.4 Fe argymhellir bod y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd presennol yn parhau yn eu rolau er mwyn sicrhau cysondeb. Dylid nodi hefyd, ar gyfer y dyfodol agos o leiaf, y bydd rolau’r Cadeirydd a’r Is-gadeirydd yn debygol o fod wedi eu cyfyngu i gynnal cyfarfodydd ac unrhyw faterion cyfansoddiadol, yn hytrach na rolau dinesig/seremonïol gan fod gweithgareddau o’r fath wedi eu hatal am y tro.

## 3. Argymhelliad

3.1 Gofynnir i’r Cyngor gadarnhau nad oes angen cynnal etholiad i ddewis Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y Cyngor ac y bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd presennol y Cyngor yn parhau yn eu rolau am gyfnod estynedig tan y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir yn 2021.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 8 Medi 2020 |
| **TEITL:** | Penderfyniadau Gweithredol rhwng mis Mai 2019 a Gorffennaf 2020 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Annwen Morgan<br>Prif Weithredwr |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Adrodd ar y penderfyniadau gweithredol a wnaed yn ystod y flwyddyn hyd yma |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (est 2568)<br>lbxcs@ynysmon.gov.uk |

## 1. Cefndir

1.1 Yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith (a gynhwysir yn Rhan 4.4 Cyfansoddiad y Cyngor), *"Gall yr Arweinydd ddiwygio'r cynllun dirprwyo i swyddogaethau gweithredol unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. I wneud hynny, rhaid i'r Arweinydd roi rhybudd ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr ac i'r person, corff neu Bwyllgor dan sylw. Rhaid i'r rhybudd gyflwyno maint y diwygiad i'r cynllun dirprwyo, a ph'run a yw'n golygu tynnu dirprwyaeth oddi ar unrhyw berson, corff, Pwyllgor neu'r Pwyllgor Gwaith yn gyffredinol. Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno adroddiad i Gyfarfod Arferol nesaf y Cyngor yn nodi'r newidiadau a wnaed gan yr Arweinydd."* (Paragraff 4.4.1.4.2)

1.2 Oherwydd y pandemig coronafeirws, diwygiwyd y cynllun dirprwyo gan yr Arweinydd ar 23 Mawrth 2020. Ceir manylion am y newidiadau ym mharagraff 3.5 isod.

1.3 Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â pharagraff 1.1 uchod ac ar gais Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor.

## 2. Rhan 3 o Gyfansoddiad y Cyngor – y cynllun dirprwyo

2.1 Mae Rhan 3 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu'r cyfrifoldebau am wneud penderfyniadau mewn perthynas â gwahanol swyddogaethau'r Cyngor (cynllun dirprwyo'r Cyngor).

2.2 Mae cynllun dirprwyo'r Cyngor yn seiliedig ar yr egwyddor y bydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud holl benderfyniadau'r awdurdod lleol nad ydynt wedi cael eu dirprwyo i unrhyw ran arall o'r awdurdod lleol h.y. bydd yn benderfyniad gweithredol oni bai y nodwyd, mewn cyfraith neu o dan y Cyfansoddiad, ei fod yn benderfyniad i'r Cyngor llawn, pwyllgor rheoleiddio neu'n benderfyniad i swyddogion. Mae hyn yn cydymffurfio â'r manylion yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 [sy'n darparu gwybodaeth am benderfyniadau (a) na chaniateir i Bwyllgor Gwaith eu gwneud a (b) penderfyniadau a all fod yn rhai na chaniateir i Bwyllgor Gwaith eu gwneud].

## 3. **Penderfyniadau Gweithredol**

3.1 Mae Adran 3.3. y Cyfansoddiad yn manylu ar y penderfyniadau y bydd y Pwyllgor Gwaith yn eu gwneud. Yr Arweinydd sy'n gyfrifol am ddirprwyo swyddogaethau gweithredol.

3.2 Bydd penderfyniadau gweithredol yn cael eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfanrwydd, neu gellir eu gwneud gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith (yr Arweinydd/Deilyddion Portffolio), neu Bwyllgorau'r Pwyllgor Gwaith, neu swyddogion yn gweithredu dan awdurdod gweithredol dirprwyedig penodol.

3.3 Penderfyniadau Gweithredol gan y Pwyllgor Gwaith:

Mae penderfyniadau gweithredol gan y Pwyllgor Gwaith yn cael eu gwneud mewn cyfarfodydd a we-ddarlledir gynhelir yn fisol fel arfer. Mae'r penderfyniadau a wneir ym mhob cyfarfod yn cael eu cyhoeddi wedi hynny.

3.4 Penderfyniadau gan Ddeilydd Portffolio:

Gwneir penderfyniadau gan Ddeilydd Portffolio yn unol â'r ddirprwyaeth Pwyllgor Gwaith sefydlog ac yn unol â Disgrifiad Swydd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith.

Casglwyd ynghyd y penderfyniadau a wnaed gan bob Deilydd Portffolio yn ystod y cyfnod cyfredol ac maent ynghlwm yn yr Atodiadau a ganlyn i'r adroddiad hwn:

| **Deilydd Portffolio** | **Cynghorydd yn y swydd** | **Atodiad** |
|---|---|---|
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Y Cynghorydd Richard Dew | Dim i'w adrodd |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Y Cynghorydd Llinos M Huws (Arweinydd) | **1** |
| Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd | Y Cynghorydd Carwyn Jones | Dim i'w adrodd |
| Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant | Y Cynghorydd R Meirion Jones | Dim i'w adrodd |
| Tai a Chefnogi Cymunedau | Y Cynghorydd Alun Mummery | Dim i'w adrodd |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS | Dim i'w adrodd |
| Gwasanaethau Corfforaethol | Y Cynghorydd Dafydd R Thomas | Dim i'w adrodd |
| Trawsnewid a'r Iaith Gymraeg | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Dirprwy Arweinydd) | **2** |
| Cyllid | Y Cynghorydd Robin Williams | **3** |

3.5 Penderfyniadau'r Arweinydd:

Yn unol â'r pwerau a roddir gan ddeddfwriaeth, a gan Gyfansoddiad y Cyngor, gall yr Arweinydd wneud unrhyw benderfyniadau gweithredol yn ogystal; gan gynnwys y rhai hynny a gafodd eu dirprwyo i eraill.

Mewn ymateb i'r pandemig coronafeirws, diwygiwyd y ddirprwyaeth arferol ar gyfer penderfyniadau gweithredol gan yr Arweinydd drwy ddirprwyaeth a lofnodwyd ar 23 Mawrth 2020.

Ceir rhestr o bob penderfyniad a wnaed gan yr Arweinydd yn ystod cyfnod yr adroddiad yn **Atodiad 4**.

## 4. Argymhellion

I'r Cyngor nodi'r penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith, drwy ddulliau amrywiol, yn unol â'r cynllun dirprwyo a gynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

**Atodiad 1 - Deilydd Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol**

| Dyddiad | Dolen i'r Cofnod o Benderfyniad | Penderfyniad |
|---|---|---|
| Medi 2019 | Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan y Deilydd Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol | Bod Cyngor Sir Ynys Môn yn mabwysiadu Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru yn ffurfiol. |
| Medi 2019 | Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan y Deilydd Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Deilydd Portffolio ar gyfer Cyllid | Bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cytuno i'r ymagwedd a nodir yn y papurau amgaeedig i gwrdd â gofynion Llywodraeth Cymru i gytuno ar Gyllideb ar y Cyd ar gyfer lleoliadau nyrsio a phreswyl i'r henoed. |
| Mawrth 2020 | Cofnod o Benderfyniadau Gweithredol a wnaed gan y Deilydd Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol | Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar Gydraddoldeb 2018/19, i'w gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2020. |

**Atodiad 2 – Deilydd Portffolio ar gyfer Trawsnewid a'r Iaith Gymraeg**

| **Dyddiad** | **Dolen i'r Cofnod o Benderfyniad** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| Mehefin 2019 | Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan y Deilydd Portffolio ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau a chyfrifoldeb am yr Iaith Gymraeg | Derbyn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg am 2018/19 a chymeradwyo ei gyhoeddi. |

**Atodiad 3 – Deilydd Portffolio ar gyfer Cyllid**

| **Dyddiad** | **Dolen i'r Cofnod o Benderfyniad** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2019 | Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan y Deilydd Portffolio ar gyfer Cyllid | - Cymeradwyo'r uwchraddiad i'r amgylchedd endid taliadau busnes BACS fel y manylir yn yr adroddiad ynghlwm;<br>-Trosglwyddo £25,000 o'r gronfa wrth gefn ar gyfer Cost Newidiadau i gwrdd â chost yr uwchraddiad.<br><br>Gweler ynghlwm - llythyr gan Arweinydd y Cyngor yn dirprwyo'r hawl i'r Deilydd Portffolio (Cyllid) wneud y penderfyniad ar ran yr holl Bwyllgor Gwaith oherwydd y brys. |
| Gorffennaf 2019 | Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r Deilydd Portffolio Cyllid | Dileu dyledion gwerth £40,844.12. |
| Ionawr 2020 | Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r Deilydd Portffolio Cyllid | Dileu dyledion gwerth £38,056.95. |

**Atodiad 4 – Yr Arweinydd**

| Dyddiad | Dolen i'r Cofnod o Benderfyniad | Penderfyniad |
|---|---|---|
| Hydref 2019 | Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd | I gyfeirio at y Cyngor Llawn penderfyniad mewn perthynas â chymeradwyo pŵer dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol gyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor fel Awdurdod Lleol ac Awdurdod Cynllunio mewn cysylltiad â cheisiadau cydsynio sy'n cynnwys caniatâd cynllunio neu ganiatâd cynllunio tybiedig neu'r hyn sy'n cyfateb i'w bennu gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys negodi a chwblhau cytundebau rhwymedigaeth cynllunio. |
| Rhagfyr 2019 | Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd | Argymell i'r Cyngor fod paragraff 4.3.2.2.8 o'r Cyfansoddiad yn cael ei atal ar gyfer 2020/2021 yn unig. |
| Mai 2020 | Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd – 4 Mai, 2020 | Derbyn Polisi RIPA y Cyngor a chaniatáu i Gyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro'r Cyngor wneud newidiadau i'r Polisi o bryd i'w gilydd yn unol ag arferion sy'n dod i'r amlwg a newidiadau deddfwriaethol. |
| Mai 2020 | Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd – 13 Mai, 2020 | Cymorth ariannol i denantiaid busnes y Cyngor yn ystod yr Argyfwng Coronafeirws. |
| Mai 2020 | Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd – 27 Mai, 2020 | Cyflwyno Polisi Rhyddhad Dewisol dros-dro rhag y Dreth Fusnes yn sgil COVID – 19. |
| Mai 2020 | Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd – 27 Mai, 2020 | Diwygio rhan o'r Polisi Rhyddhad Dewisol rhag y Dreth Gyngor yn sgil COVID – 19. |
| Mehefin 2020 | Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd – 11 Mehefin, 2020 | Fod y Cyngor yn cynnig cymorth i'r Cynghorau Cymuned a Thref sydd wedi eu hadnabod gyda diffyg capasiti ar gyfer claddedigaethau i greu darpariaeth ychwanegol. Gwneir hyn drwy roi cymorth iddynt yn y lle cyntaf i dderbyn cytundeb Llywodraeth Cymru i fenthyg arian ac wedyn gyda'r broses benthyg. Yn niffyg popeth arall ac yn dilyn adroddiad a phenderfyniad pellach, gellir ystyried benthyciad uniongyrchol gan y Cyngor. |

| | | |
|---|---|---|
| Mehefin 2020 | Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd – 22 Mehefin, 2020 | Derbyn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg am 2018/19 a chymeradwyo ei gyhoeddi. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **8 MEDI 2020** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL O FEWN Y CYNGOR** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I ADOLYGU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL AR BWYLLGORAU** |

**1.0** Mae angen i'r Cyngor adolygu trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ei Bwyllgorau yn flynyddol. Ar hyn o bryd, mae 1 sedd wag yn y Cyngor o ganlyniad i farwolaeth diweddar y Cynghorydd S Redmond. Mae'r holl isetholiadau wedi eu hatal tan 2021 yn unol â deddfwriaeth ddiweddar o ganlyniad i'r pandemig.

**2.0** Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion mewn perthynas â chydbwysedd gwleidyddol, sef:

*"(a) nad yw'r holl seddau ar y corff yn cael eu dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;*

*(b) bod mwyafrif y seddau ar y corff yn cael eu dyrannu i grŵp gwleidyddol penodol os yw nifer y bobl sy'n perthyn i'r grŵp hwnnw yn fwyafrif o aelodaeth yr Awdurdod;*

*(c) yn amodol ar (a) a (b) uchod, mae nifer y seddau ar bwyllgorau cyffredin Awdurdod perthnasol, sy'n cael eu dyrannu i bob plaid wleidyddol, â'r un gyfran o gyfanswm yr holl seddau ar y pwyllgorau cyffredin o'r Awdurdod hwnnw fel sy'n deillio o nifer yr aelodau o'r grŵp hwnnw i aelodaeth yr Awdurdod; ac*

*(d) yn amodol ar baragraffau (a) i (c) uchod, bod nifer y seddau ar y corff sy'n cael eu dyrannu i bob grŵp gwleidyddol â'r un gyfran â nifer yr holl seddau ar y corff hwnnw ac sy'n deillio o nifer yr aelodau o'r grŵp hwnnw sy'n aelodau o'r Awdurdod."*

**3.0** Mae'r sefyllfa o ran Aelodaeth o Grwpiau fel â ganlyn:

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | - 14 |
| Llafur Cymru | - 2 |
| Y Grŵp Annibynnol | - 7 |
| Grŵp Annibynwyr Môn | - 6 (Yn cynnwys un Aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol) |
| Sedd Wag | - 1 |

**4.0** Mae'r matrics sydd wedi'i atodi yn nodi'r hawl i seddi ar bob Pwyllgor.

**5.0** Cyfanswm nifer y seddi i'w dyrannu yw 113.

**6.0** Yn amlwg, oni bai fod modd dod i ganlyniad lle mae seddau cyfan yn cael eu dyrannu, bydd ffracsiynau o seddi yn golygu na fydd modd cydymffurfio yn union. Fodd bynnag, mae angen sicrhau'r gydymffurfiaeth gorau posibl yn seiliedig ar y

ffigyrau a’r egwyddorion a nodir ym mharagraff 2 uchod.

**7.0** Gall pob grŵp gwleidyddol ar y Cyngor ond ddyrannu’r seddau maent yn eu derbyn o dan y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol i’w haelodau eu hunain ac ni allant eu dyrannu i Gynghorwyr nad ydynt yn Aelodau o’r un blaid wleidyddol.

8.0 Wedi’i atodi, mae’r Matrics sy’n nodi’r hawl cyffredinol i seddau ar Bwyllgorau.

9.0 Mae cyfanswm yr hawl i’r Grŵp Annibynwyr Môn wedi gostwng (3) sedd o ganlyniad i’r sedd wag.

10.0 Yn unol â’r protocolau rheolaeth gwleidyddol, mae Arweinyddion Grwpiau wedi eu hymgynghori â nhw mewn perthynas â’r trefniadau rheolaeth wleidyddol.

**8.0 Argymhellion:-**

(i) Gofynnir i’r Cyngor gadarnhau’r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddau a ddyrennir i bob un o’r Grwpiau yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

(ii) Bod Arweinyddion Grwpiau yn hysbysu Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted â phosibl os oes unrhyw newidiadau i Aelodaeth Grwpiau ar Bwyllgorau.

Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau
Democrataidd
14/7/20

**Gorffennaf/July 2020**

| Balans ar y Cyngor Sir / Balance on County Council | | Pwyllgorau / Committees | Partneriaeth / Partnership | Corfforaethol / Corporate | Cyfanswm Craffu / Total Scrutiny |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Aelodaeth / Membership | 10 | 10 | 20 |
| Plaid Cymru / Party of Wales | 14 | | *4.6667* 5 | *4.66667* 5 | *9.333333333* 10 |
| Llafur Cymru / Welsh Labour | 2 | | *0.6667* 1 | *0.66667* 1 | *1.333333333* 2 |
| Y Grwp Annibynnol | 7 | | *2.3333* 2 | *2.33333* 2 | *4.666666667* 4 |
| Annibynwyr Mon / Anglesey Independents | 6 | | *2* 2 | *2* 2 | *4* 4 |
| Sedd Wag / Vacant seat | 1 | | *0.3333* 0 | *0.33333* 0 | *0.666666667* 0 |
| | 30 | | *10* 10 | *10* 10 | *20* 20 |

**PWYLLGORAU CRAFFU A THROSOLWG**
**SCRUTINY AND OVERVIEW COMMITTEES**

| ALLWEDD | KEY |
|---|---|
| *Chwith uchaf, italic = hawl ffracsiynol damcaniaethol* | |
| *Top left, italic, theoretical fractional entitlement* | |
| | Dde isaf, arferol = awgrym rhif llawn |
| | Bottom right, normal = whole number suggestion |

**LLED-FARNWROL / QUASI-JUDICIAL** — **PWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR / OTHER COMMITTEES OF THE COUNCIL**

| Pwyllgorau / Committees | Cynllunio a Gorchmynion / Planning and Orders | Archwilio / Audit | Gwasanaethau Democrataidd / Democratic Services | Penodiadau / Appointments | Ymchwilio / Investigation | Disgyblu / Disciplinary | Apeliadau / Appeals | Trwyddedu / Licensing | CYSAG / SACRE | Cynllunio ar y cyd / Joint Planning | Tal a Graddio / Pay and Grading | Penodi Safonau / Standards Appointing | Is-Bwyllgor Indemniadau / Indemnities sub-Committee | Cyfanswm Eraill / Total Others | CYFANSWM LLAWN / GRAND TOTAL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth / Membership | 11 | 8 | 10 | 10 | 3 | 3 | 10 | 11 | 6 | 7 | 6 | 3 | 5 | 93 | 113 |
| Plaid Cymru / Party of Wales | *5.13333* 5 | *3.73333* 4 | *4.66667* 5 | *4.66667* 5 | *1.4* 1 | *1.4* 1 | *4.666667* 5 | *5.13333333* 5 | *2.8* 3 | *3.266666667* 3 | *2.8* 3 | *1.4* 1 | *2.333333* 2 | *43.4* 43 | *52.73333333* 53 |
| Llafur / Labour | *0.73333* 1 | *0.53333* 0 | *0.66667* 1 | *0.66667* 1 | *0.2* 0 | *0.2* 0 | *0.666667* 1 | *0.73333333* 1 | *0.4* 1 | *0.466666667* 0 | *0.4* 1 | *0.2* 0 | *0.333333* 1 | *6.2* 8 | *7.533333333* 10 |
| Grwp Annibynnol / Independent Group | *2.56667* 2 | *1.86667* 2 | *2.33333* 2 | *2.33333* 2 | *0.7* 1 | *0.7* 1 | *2.333333* 2 | *2.56666667* 2 | *1.4* 1 | *1.633333333* 2 | *1.4* 1 | *0.7* 1 | *1.166667* 1 | *21.7* 20 | *26.36666667* 24 |
| Annibynwyr Mon / Anglesey Independents | *2.2* 2 | *1.6* 2 | *2* 2 | *2* 2 | *0.6* 1 | *0.6* 1 | *2* 2 | *2.2* 2 | *1.2* 1 | *1.4* 2 | *1.2* 1 | *0.6* 1 | *1* 0 | *18.6* 19 | *22.6* 23 |
| Sedd Wag/vacant seat | *0.36667* 0 | *0.26667* 0 | *0.33333* 0 | *0.33333* | *0.1* 0 | *0.1* 0 | *0.333333* 0 | *0.36666667* 0 | *0.2* | *0.233333333* 0 | *0.2* 0 | *0.1* 0 | *0.166667* 0 | *3.1* 3 | *3.766666667* 3 |
| | *11* 10 | *8* 8 | *10* 10 | *10* 10 | *3* 3 | *3* 3 | *10* 10 | *11* 10 | 6 6 | *7* 7 | *6* 6 | *3* 3 | *5* 4 | *93* 93 | *113* 113 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **8 MEDI 2020** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYRFF ALLANOL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CADARNHAU APWYNTIADAU I GYRFF ALLANOL AR GYFER 2020/21** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

## 1.0 Cefndir

Yn unol â rheol gweithdrefn 4.1.1.2.7 (ii) y Cyngor, mae'n ofynnol i'r cyfarfod blynyddol dderbyn a chadarnhau rhestr o aelodau i wasanaethu ar gyrff allanol sydd ddim yn gorfod bod yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn unol ag adran 5.8.4.2 y Cyfansoddiad. Mae manylion apwyntiadau cyfredol ynghlwm i'r adroddiad yma ac ymgynghorwyd gydag Arweinyddion Grŵp. Mae'r rhain yn apwyntiadau gwahanol i'r apwyntiadau a wneir gan yr Arweinydd.

## 2.0 Argymhelliad

Cytuno a chadarnhau'r apwyntiadau a welir yn y rhestr ynghlwm.

**Huw Jones**
**Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd**
**1/7/20**

# ATODIAD

**CYRFF ALLANOL, CYD BWYLLGORAU A PHARTNERIAETHAU**

**CYNRYCHIOLAETH I'W BENDERFYNU A'I GADARNHAU GAN Y CYNGOR LLAWN**

| Rhif | Teitl | Nifer yr Aelodau sydd eu hangen | Enwau'r Cynrychiolydd (wyr) |
|---|---|---|---|
| 1. | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (*3 aelod i'w penodi tan yr Etholiad Awdurdod Lleol nesaf* ***** | 3 | Richard Griffiths, Dylan Rees, Eric Jones |
| 2. | Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (*2 aelod o'r 3 uchod)* | 2 | Richard Griffiths, Eric Jones |
| 3. | Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (*yr aelod sydd ar ôl)* | 1 | Dylan Rees |
| 4. | Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru (Pwyllgor Lleol Ynys Môn) *(3 aelod i wasanaethu ar Bwyllgor Lleol Ynys Môn tan yr Etholiad Awdurdod Lleol nesaf)* ****** | 3 | Trefor LL Hughes, Dylan Rees, Glyn Haynes |
| 5. | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (*Arweinydd a Dirprwy Arweinydd)* | 2 | Llinos Medi Huws, Ieuan Williams |
| 6. | Grŵp Cydranddeiliaid Safle Wylfa (*7 aelod yn cynnwys yr aelodau lleol yn Wardiau Talybolion a Thwrcelyn ac 1 aelod o'r Awdurdod).* | 7 (Aelodau Lleol + 1 Aelod arall) | Aelodau Lleol wardiau Talybolion a Twrcelyn a G.O. Jones |
| 7. | Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd *(Gall unrhyw Aelod o'r Awdurdod fynychu ond dylai cynrychiolaeth y Cyngor Sir fod yn 7 aelod, yn cynnwys yr aelodau lleol o Wardiau Talybolion a Thwrcelyn ac 1 aelod o'r Awdurdod).* | 7 (Aelodau Lleol + 1 Aelod arall) | Aelodau Lleol wardiau Talybolion a Twrcelyn a Dafydd Rhys Thomas |
| 8 | Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE | 5 | Richard Dew, Nicola Roberts, Dafydd Roberts, Robin Williams, Eric Jones |
| 9. | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru *(Gall fod am y flwyddyn ddinesig ond y mae'n arferol er mwyn dilyniant i'r penodiadau gael eu gwneud tan yr Etholiad Awdurdod Lleol nesaf)*. ******* | 1 | Dylan Rees |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10. | CAB Ynys Môn | 1 | Nicola Roberts |
| 11. | Medrwn Môn *(Sylwedydd heb bleidlais)* | 1 | Llinos Medi Huws |
| 12. | Grŵp Mynediad Ynys Môn | 1 | R.G. Parry, OBE, FRAgS |
| 13. | Ymddiriedolaeth Addysgol Owen Lloyd Penrhosllugwy (76) *(aelod lleol)* | 1 | Vaughan Hughes |
| 14. | Cwmni Frân Wen *(Sylwedydd)* | 1 | Vaughan Hughes |
| 15. | Pwyllgor Rheoli CYNNAL *(2 Aelod i gynnwys Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Dafydd Roberts |
| 16. | Panel Mabwysiadu Gwynedd a Môn | 1 | Dylan Rees |
| 17. | Panel Maethu | 1 | Richard Griffiths |
| 18. | Fforwm Cyngor Taleithiol Cymru (CLLC/WLGA) *(hawl i 2 aelod gydag un ohonynt yn Ddeilydd Portffolio Adnoddau Dynol)* | 1 | John Griffiths |
| 19. | Partneriaeth Cronfa Ddatblygu Cynaliadwy | 1 | Richard Dew |
| 20. | Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol | 5 | Alun Mummery, Kenneth Hughes, Llinos Medi Huws, R. Meirion Jones, G.O. Jones |
| 21. | Fforwm Iaith Môn | 1 | Ieuan Williams Bryan Owen G OJones Lewis Davies |
| 22 | Pwyllgor Safonau | 2 | D R Thomas J Arwel Roberts |

*** Mae gofynion cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i'r penodiadau hyn**
**** Mae'r Rheoliadau yn awr yn caniatáu hyd at 2 aelod heb eu hethol i gynrychioli'r Awdurdod**
***** Mae'r Panel yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol ar draws y rhanbarth. Mae cynrychiolydd Ynys Môn i ddod o Grwp Plaid Cymru**

This page is intentionally left blank